Cyllid ar gyfer Grwpiau Gwirfoddol a Mudiadau Elusennol:

Enw	Meini Prawf	Cymhwysedd	Faint sydd ar gael	Dolen i'r wefan	Gweinyddwr / Manylion Cyswllt
Grant Ymateb i Covid-19 Cronfa Gymunedol Clocaenog.	Ar gyfer grwpiau gwirfoddol nid er elw 'ar y rheng flaen' sy'n darparu cefnogaeth yn eu cymunedau lleol mewn ymateb i Covid-19, y cynnwys Cymunedau Tref, Dinas a Chymuned.	Gall pob rhan o Sir Ddinbych fanteisio ar Grant Ymateb i Covid-19 Cronfa Gymunedol Clocaenog neu Grant Ymateb i Covid-19 Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr sydd wedi'i rhestru isod. Gweler wefan CVSC am fapiau sy'n dangos ardaloedd dalgylch y grantiau hyn ac i weld am beth yr ydych yn gymwys.	£100 - £5,000	https://www.cvsc.org.uk/en/funding/clocaenog	E-bost Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC): grants@cvsc.org.uk. Ffôn: 01492 523856
Grant Ymateb i Covid-19 Cronfa Gymunedol Gwynt-y-Môr.	Ar gyfer grwpiau gwirfoddol nid er elw 'ar y rheng flaen' sy'n darparu cefnogaeth yn eu cymunedau lleol mewn ymateb i Covid-19. Yn cynnwys Cymunedau Tref, Dinas a Chymuned.	Gall pob rhan o Sir Ddinbych fanteisio ar Grant Ymateb i Covid-19 Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr neu Grant Ymateb i Covid-19 Cronfa Gymunedol Clocaenog sydd wedi'i rhestru uchod. Gweler wefan CVSC am fapiau sy'n dangos ardaloedd dalgylch y grantiau hyn ac i weld am beth yr ydych yn gymwys.	£100 - £5,000	https://www.cvsc.org.uk/en/funding/gwynt-y-mor-community-fund	E-bost Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC): grants@cvsc.org.uk. Ffôn 01492 523856
Cronfa Argyfwng Covid-19 Steve Morgan Foundation *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Ar gyfer elusennau a sefydliadau nid er elw i helpu gyda chostau gwasanaethau argyfwng ychwanegol i helpu pobl sydd wedi'u heffeithio gan y feirws; bydd hefyd yn helpu elusennau sy'n dioddef colled refeniw o godi arian sy'n eu galluogi i aros mewn busnes.	Ar gyfer elusennau a grwpiau nid er elw ar draws Gogledd Cymru, Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Swydd Amwythig. Yn benodol sefydliadau sy'n helpu: plant, teuluoedd a'r henoed, pobl ag anableddau a'r rhai hynny sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol.	Nid oes uchafswm wedi'i osod.	https://stevemorganfoundation.org.uk/morgan-pledges-1million-a-week-to-charities-hit-by-coronavirus/	E-bost Steve Morgan Foundation: contact@stevemorganfoundation.org.uk. Ffôn: 01829 782808
Cronfa Gymunedol Estyniad Banc Burbo	Mae Ørsted wedi cyhoeddi newidiadau dros dro i'r meini prawf cyllido, mewn ymateb i argyfwng byd-eang cyfredol Covid-19. Anogir ceisiadau i gefnogi cymunedau hyd at adferiad. Mae hyn yn debygol o gynnwys grwpiau a sefydliadau lleol sy'n: • Ceisio darparu cefnogaeth a gwasanaethau hanfodol i hwyluso'n uniongyrchol yn yr ymdrechion i adfer o Covid-19. • Wedi colli incwm craidd sylweddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf ac yn gofyn am gyllid i adennill yn ariannol yn gynt. Newidiadau dros dro i'r meini prawf cyllido: • Ni fydd angen arian cyfatebol ar gyfer yr holl geisiadau ar hyn o bryd. • Mae cyfyngiadau ailymgeisio wedi'u codi. Gall unrhyw grwpiau sydd wedi cael grant yn flaenorol, gyda phrosiect byw neu wedi bod yn aflwyddiannus yn y rownd ddiwethaf, ailymgeisio.	**Sefydliadau Cymwys:** Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gael cyfansoddiad ysgrifenedig, cyfres o reolau, neu ddogfen lywodraethu a chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, yn enw'r sefydliad, cyn ymgeisio am grant. Mae sefydliadau sy'n gallu ymgeisio am gyllid yn cynnwys: • Grwpiau gwirfoddol, cymunedol, elusennau lleol a chenedlaethol • Cynghorau Plwyf / Cymuned / Tref • Awdurdodau Lleol (os ydynt yn ymgeisio ar ran sefydliad cymunedol) • Mentrau cymdeithasol a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol yn gweithredu ar **sail nad yw'n dosbarthu elw.**	**Grantiau bach** rhwng £500 a £5,000 **Prif grantiau** rhwng £5,001 a £20,000	https://www.grantscape.org.uk/fund/burbo-bank-extension-community-fund/	Grantscape Ffôn: 01908 247634 E-bost: bbecf@grantscape.org.uk

	Mae'r newidiadau'n ymwneud â phob cais gyda dyddiadau cau 23 Medi 2020 ac 14 Ebrill 2021 yn unig. Bydd pob maen prawf arall yn aros yr un fath.				
Cronfa Grantiau Independent Age **ceisiadau'n cau: 17 Ionawr 2021**	Mae ein hymddiriedolwyr wedi penderfynu rhyddhau £2 miliwn o Gronfa Independent Age i helpu sefydliadau llai ar draws y DU sy'n gweithio gyda rhai o'r bobl hŷn yr effeithiwyd waethaf gan y feirws. Rydym wedi penderfynu dechrau drwy gefnogi gwaith gyda dau grŵp o bobl hŷn, sy'n gallu colli allan hefyd: • Pobl hŷn sy'n byw mewn sefyllfaoedd arbennig o gymhleth a heriol • Pobl hŷn mewn perygl o fod yn bell o'r golwg ac yn bell o'r meddwl	Bydd pedwar rownd o gynhyrchu'r grant, gyda £500,000 ar gael ym misoedd Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi 2020. Rydym yn gobeithio y gallwn ffurfio 200 grant o'r Gronfa yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n rhaid bod eich sefydliad wedi cofrestru fel elusen gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon, neu Swyddfa Rheoleiddio Elusennau'r Alban. Mae'n rhaid cael un aelod o staff cyflogedig (mae rhan-amser yn iawn) ac incwm blynyddol o £1 neu lai (ar gyfartaledd ar draws y tair blynedd ariannol ddiwethaf).	£5,000 a £15,000 am hyd at 6 mis.	https://www.independentage.org/community/grants-fund	Independent Age Cyswllt: GrantsFund@independentage.org
Grŵp Cynefin **Grant Ymateb Covid**	Mae'r grant wedi ei sefydlu ar gyfer cefnogi cymunedau i ymateb i'r heriau yn dilyn Covid-19. Nod y grant yw darparu cymorth ariannol i grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu grwpiau o drigolion sy'n darparu cefnogaeth, gwasanaethau a gofal yn dilyn y pandemig. Does dim rhaid i'r grŵp fod â chyfansoddiad. Cynllun grant hyd at £500 sydd ar gael i grwpiau o fewn ardal weithredol Grŵp Cynefin (chwe sir Gogledd Cymru yn ogystal â gogledd Powys).		£500		Grŵp Cynefin Ebost: mentraucymunedol@grwpcynefin.org
Cronfa Cyfiawnder Cymunedol *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r Gronfa Cyfiawnder Cymunedol yn canolbwyntio ar anghenion sefydliadau cyngor cyfreithiol arbenigol mewn lles cymdeithasol. Ein nod yw helpu'r sefydliadau hyn i fod yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wyneb eu hymateb i COVID-19. Byddwn yn darparu cymorth hyblyg fel y gall sefydliadau ymateb i'r heriau hyn mewn ffyrdd y teimlant sy'n bodloni eu hanghenion orau, ond nad oes ganddynt yr arian i wneud hynny ar hyn o bryd. Gallai hyn olygu 'cadw'r drysau ar agor', gan wneud newidiadau angenrheidiol i weithio o'r cartref, cynnal gwasanaethau, addasu gwasanaethau er mwyn cyrraedd at bobl mewn ffyrdd newydd ar raddfa fwy, gan gefnogi lles staff, neu gyfuniad o'r rhain ac ymatebion eraill.		£25,000 – £75,000	https://www.communityjusticefund.org.uk/	Community Justice Fund E-bost: cjf@atjf.org.uk
Cronfa Benthyciad Gwydnwch ac Adferiad **ceisiadau'n cau: 31 Mawrth 2021**	Mae'r Gronfa Benthyciad Gwydnwch ac Adferiad, a gynigir gan Social Investment Business (SIB), wedi'i hehangu a'i gwella i wneud mwy o fenthyciadau i elusennau a mentrau cymdeithasol y mae'r pandemig coronafirws yn effeithio arnynt. Mae'n cynnig: • Uchafswm y benthyciad nawr yw £ 1.5m (lleiafswm o hyd yn £ 100k) • Di-log a di-ffi am y 12 mis cyntaf • Yn gyflymach na gwneud cais am fenthyciad safonol Mae'r Gronfa hon ar gyfer elusennau a mentrau cymdeithasol y DU yn unig sy'n cyflawni meini prawf cymhwysedd y Gronfa a CBILS – mae'r rhestr lawn o feini prawf cymhwysedd i'w gweld ar wefan SIB.			https://www.sibgroup.org.uk/resilience-and-recovery-loan-fund	**Social Business Investment** **Email:** **RRLF@sibgroup.org.uk**

Cronfa adfer y gwasanaethau gwirfoddol	Wrth i Lywodraeth Cymru lacio'r cyfyngiadau symud a phobl Cymru yn symud ymlaen, mae angen i'r cyllid ymateb i heriau newydd. Er bod y cyfyngiadau cymdeithasol yn llacio, mae llawer o bobl mewn sefyllfaoedd o argyfwng o hyd ac angen cymorth brys. Bydd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol (VSRF) yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau ar draws cymdeithas o ganlyniad i bandemig Covid-19. Gwnaeth llawer o gymunedau ddioddef yn anghymesurol; felly, mae angen cymryd camau i sicrhau adferiad teg a chyfiawn. Bydd y cyllid hefyd yn cyflwyno'r adnoddau i'r sector gwirfoddol ymwreiddio arferion diogel er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ledled Cymru.	Mae'r gronfa'n canolbwyntio'n bennaf ar gyllid refeniw, fodd bynnag, gall eich cais am gyllid gynnwys costau ar gyfer prynu cyfarpar 'cyfalaf' llai o faint, gan gynnwys defnyddiau traul (er enghraifft, cyfarpar diogelu personol, sgriniau ac ati). • Cyllido adferiad teg a chyfiawn ar gyfer pobl yng Nghymru • Gweithio tuag at leihau anghydraddoldebau sydd wedi gwaethygu yn sgil pandemig Covid-19 ac atal anghydraddoldebau sy'n ymddangos rhag sefydlu mewn cymunedau • Cyllido addasiadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu darparu ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed sydd wedi'u heffeithio gan bandemig Covid-19, yn unol â gofynion y llywodraeth	£10,000 - £100,000 gyda pheth hyblygrwydd	https://wcva.cymru/funding/volunteering-wales-grants-scheme/	Cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i weinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) E-bost: vsef@wcva.cymru Rhif ffôn: 0300 111 0124
Cronfa Ymateb ac Adfer Cymru	Wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio, rydym ni'n cydnabod fod y gofynion ariannol llawer o sefydliadau wedi newid. Rydym yn deall y bydd dal angen arian argyfwng am rai misoedd i ddod, a bod angen symud ymlaen ynghynt i ganfod y 'normal newydd'. Dylai grwpiau ystyried yr heriau o adfer a bod yn siŵr eu bod yn gallu dal i gefnogi eu buddiolwyr yn y ffordd iawn, a chofio hefyd y bydd eu hymddiriedolwyr, timoedd staff a gwirfoddolwyr angen cefnogaeth ychwanegol. Bydd y gronfa newydd hon felly'n cynnwys y ddwy elfen: • YMATEB – Bydd arian yn dal ar gael ar gyfer sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth argyfwng i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig Coronafeirws. • ADFER – Bydd arian yn cael ei ganolbwyntio ar adfer o'r argyfwng yn sydyn a datblygu hunanddigonedd a gwydnwch, gan ganolbwyntio ar atebion yn hytrach nag ar symptomau. Rhaid i'r gwaith sy'n cael ei gefnogi fod yn cael ei anelu at gryfhau Costau prosiectau a chostau rhedeg sefydliadau, gan gynnwys costau staff, treuliau gwirfoddolwyr a chostau cludiant. Mae costau cyfalaf bychan hefyd yn gymwys os bydd yr eitemau cyfalaf â chysylltiad uniongyrchol â chefnogi'r grwpiau uchod.	Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael ar gyfer ceisiadau sy'n talu sylw i brosiectau o dan YMATEB Mae grantiau o hyd at £20,000 ar gyfer ceisiadau'n talu sylw i brosiectau o dan ADFER.	https://communityfoundationwales.org.uk/cy/grants/cronfa-ymateb-ac-adfer-cymru/	Sefydliad Cymunedol Cymru (mewn partneriaeth gyda'r National Emergencies Trust) Ffôn:02920 379580 neu anfonwch e-bost: info@communityfoundationwales.org.uk
Elusen Freeman Evans Dydd Gŵyl Dewi Dinbych	Ymddiriedolaeth elusennol breifat yw Elusen Freeman Evans Dydd Gŵyl Dewi, Dinbych a weinyddir i roi rhyddhad, cymorth a gofal i bobl oedrannus sydd mewn angen; y tlawd, cleifion parhaol a phobl anabl sy'n byw o fewn yr ardal a arferai fod yn Fwrdeistref Dinbych - hynny yw tref Dinbych a'i chyrion a phentref Henllan. Gwahoddir ceisiadau oddi wrth unrhyw un sydd o fewn y categoriau uchod, cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion preswyl pellach ac unrhyw feini prawf a osodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ac efallai y byddant yn gymwys am gymorth trwy gyfrwng taliadau arian parod, grantiau neu unrhyw gymorth ariannol arall. Gwneir pob dyfarniad yn ôl disgresiwn diamod yr Ymddiriedolwyr a bydd eu penderfyniad yn derfynol. Yn y sefyllfa bresennol o gyfyngiadau a diweithdra oherwydd y Coronaferws, efallai bydd mwy o angen am gymorth ariannol.		https://www.denbightowncouncil.gov.uk/images/FREEMAN_EVANS_St_DAVID_advert_biling.pdf	I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Medwyn Jones E-bost: medwynjones@btinternet.com. Rhif ffôn: 01745812256
Cyngor Celfyddydau Cymru **Cysylltu a Ffynnu** **Cronfa yn agor 27 Ionawr. Dyddiad cau: 17 Chwefror 2021**	• Mae Cysylltu a Ffynnu yn ariannu'r gwaith o ddatblygu cynigion gan sefydliadau, unigolion a gweithwyr creadigol proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd. Rydym yn chwilio am brosiectau uchelgeisiol a chyffrous a arweinir gan artistiaid, sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa neu gyfranogwyr, ac sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd. • Nod Cysylltu a Ffynnu yw creu cyfleoedd i artistiaid unigol a gweithwyr creadigol proffesiynol o bob cefndir weithio gyda sefydliadau partner creadigol. Hoffem i chi nodi ffyrdd newydd o weithio a fydd yn helpu i ddangos sut y gall y celfyddydau ateb heriau pandemig COVID-19.	Gallwch wneud cais am grant o £500 i £150,000. Gellir gwneud cais ar ddwy adeg wahanol yn 2020/21, a gellir gwneud ceisiadau pellach yn 2021/22.	https://arts.wales/cy/ariannu/gwneud-cais/sefydliadau/cysylltu-ffynnu	Cyngor Celfyddydau coronavirus@arts.wales

			Bydd y ceisiadau nesaf yn agor ar 27ain Ionawr ac yn cau ar 17eg Chwefror.		
Cynllun Grant Dychwelyd i Griced	Nod Cynllun Grant Dychwelyd i Griced yw darparu cymorth i glybiau a chynghreiriau criced mewn amgylchiadau **eithriadol** pan nad yw ffynonellau eraill o gymorth ariannol ar gael e.e. nid yw benthyciad yn ddewis yn gyfansoddiadol neu fod risg uchel o diffygdaliad wrth ad-dalu benthyciad.	Pwy all wneud cais? • Clybiau sy'n cael eu hatal rhag ymgeisio am Fenthyciad mewn Argyfwng gan eu cyfansoddiad neu eu herthyglau eu hunain. • Cynghreiriau criced (oedran agored neu iau) • Clybiau gyda throsiant blynyddol o lai na £15,000	• Clybiau gydag adran oedolion, hyd at £1,000 yn unig. • Cynghreiriau (oedran agored neu iau), hyd at £2,000. • Clybiau gydag adran iau (gan gynnwys criced All Stars a Dynamo) hyd at £3,000.	https://www.ecb.co.uk/be-involved/club-support/club-funding/emergency-support-programmes	Bwrdd Criced Lloegr / Criced Cymru Cyswllt: grantmanagement@ecb.co.uk.
Cronfa Argyfwng Covid-19 Moondance	Rydym yn sylweddoli bod hwn yn gyfnod heriol ac ansicr i'r trydydd sector gyda tharfu ar wasanaethau a gweithgareddau, yr angen am ffyrdd newydd o weithio, cynnydd mewn costau a ffynonellau o gyllid wedi lleihau. Byddwn yn ystyried ceisiadau ar gyfer unrnhyw un o'r canlynol: 1. Cadw Staff 2. Gweithgareddau a gwasanaethau cyfredol sydd mewn perygl 3. Esblygiad gwasanaethau er mwyn addasu i'r argyfwng presennol.	Mae Moondance yn erfyn ar ddim ond y rhai hynny sydd mewn gwir angen i wneud cais. Byddwch yn bwyllog ac yn garedig gan gofio bod y galw yn fawr a'r adnoddau'n brin. Mae grantiau ar gael ar gyfer: • Elusennau cofrestredig • Elusennau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru sy'n gweithio yng Nghymru. • Elusennau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ar gyfer eu gwaith yng Nghymru yn unig.	Dim uchafswm wedi'i ddatgan.	https://www.moondancecovid19relieffund.com/	The Moondance Foundation E-bost: moondance.covid19relieffund@gmail.com
***Bags of Help* gan Tesco – plant a phobl ifanc leol**	Oherwydd yr argyfwng sy'n parhau rydym wedi penderfynu peidio ag ailddechrau pleidleisiau mewn archfarchnadoedd yn 2020, ond byddwn yn cefnogi prosiectau *Bags of Help* mewn ffordd ychydig yn wahanol. Yn ystod misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr, bydd Tesco yn darparu grantiau hyd at £1000 i gefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc leol. Gall y thema hon gwmpasu cymysgedd fawr o achosion lleol. Er enghraifft: • Cymorth Iechyd Meddwl i blant a phobl ifanc – mae COVID-19 wedi cael effaith ar iechyd a lles plant, yn enwedig Iechyd Meddwl. • Gweithgareddau awyr agored – darpariaethau chwaraeon a mannau gwyrdd i blant a phobl ifanc gan gynnwys defnyddio mannau gwyrdd i gefnogi lles trwy weithgareddau corfforol. • Gweithgareddau addysgol anstatudol – cefnogi, ehangu ac ailadeiladu rhwydweithiau cymorth addysgol i blant, gweithgareddau ar y we. Chwaraeon, ymarfer corff a'r celfyddydau. • Gofalwyr ifanc – cymorth i ofalwyr ifanc o ganlyniad i ynysu rŵan ac yn barhaus.		£1000	https://tescobagsofhelp.org.uk/home/community-apply-bags-help-grant/	Tesco Bags of Help. I gael gwybod mwy cysylltwch â: tescocv@groundwork.org.uk

	• Cwnsela ar ôl profedigaeth – cynnig cymorth i blant sydd wedi colli aelodau o'u teulu a rhwydweithiau cymorth oherwydd COVID-19 • Tlodi plant – cefnogi sefydliadau sy'n cynnig cymorth i deuluoedd, sy'n cael eu heffeithio'n bellach gan COVID-19, a allai gynnwys bwyd / pecynnau addysgol, gweithgareddau am ddim. • Plant ddiamddiffyn sydd mewn perygl – mae'r pandemig wedi effeithio ar blant ddiamddiffyn trwy greu amgylchiadau heriol o fewn eu cartrefi a'u teuluoedd. Caiff achosion da lleol eraill sy'n cefnogi plant a phobl ifanc eu hystyried hefyd				
Ymddiriedolaeth Elusennol	Wrth i elusennau ymateb i'r argyfwng COVID-19, rydym yn cydnabod y gallai lleihau neu addasu gwasanaethau arwain at straen ariannol ychwanegol yn sgil colli ffrydiau o incwm. Efallai y bydd yn bosibl i ni helpu elusennau bach sy'n wynebu'r heriau hyn gyda grant tuag at eu costau rhedeg.	Cyllid ar gyfer costau rhedeg craidd elusennau bach sy'n cefnogi'r canlynol: Pobl hŷn; plant a phobl ifanc 5-25 oed ag amhariadau corfforol, anawsterau dysgu neu heriau iechyd meddwl; lles cymdeithasol - pobl sy'n ceisio goresgyn problemau sy'n cyfyngu ar fywyd am reswm cymdeithasol yn hytrach na meddygol (e.e. bod yn gaeth i sylwedd, anawsterau gyda pherthnasoedd, camdriniaeth, troseddu); addysg a dysgu (gyda diddordeb penodol mewn pobl sy'n addysgol ddifreintiedig boed yn oedolion neu blant).	£3,600 (dros dair blynedd)	http://yappcharitabletrust.org.uk/what-we-fund/	Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp Ffôn: 02920 379580 neu anfonwch e-bost atinfo@yappcharitabletrust.org.uk
Grantiau Gwydnwch Covid-19 Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.	Mae'r cynllun hwn wedi'i wneud yn bosibl gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Is-adran Diwylliant a Chwaraeon, gan Cadw, a gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru., Bydd grantiau ar gael ar gyfer atyniadau treftadaeth annibynnol ac amgueddfeydd yng Nghymru. Bydd y rhain yn atyniadau hanesyddol bychan annibynnol sydd ynddynt eu hunain yn adeiladau neu'n safleoedd hanesyddol ac wedi'u hachredu neu'n gweithio tuag at achrediad fel amgueddfa Bydd y grantiau'n galluogi'r sefydliadau hyn i oresgyn y cyfnod anodd hwn pan maent wedi gorfod cau ac yn colli incwm. Yn ychwanegol bydd yn sicrhau y byddant, yn syth ar ôl yr argyfwng, mewn sefyllfa i ailgor ac i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau cynaliadwy i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod adfer.	Cymhwysedd Ymgeisio • Mae'n rhaid i unrhyw amgueddfa sy'n gwneud cais fod yn aelod sefydliadol o'r Ffederasiwn. • Mae'n rhaid iddynt fod yn Amgueddfa Achrededig yng Nghymru • Dim ond os ydynt yn gweithio tuag at statws achrededig y gellir cefnogi amgueddfeydd heb eu hachredu • Atyniadau treftadaeth bach annibynnol yng Nghymru sydd ei hunain yn adeiladau neu'n safleoedd hanesyddol.	Hyd at £10,000	http://welshmuseumsfederation.org/news/60/32/COVID-19-Resilience-Grants.html	Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y cynllun hwn at Chris Delaney, Swyddog Datblygu'r Ffederasiwn drwy e-bost yn y lle cyntaf. cdelaneyheritage@btinternet.com / 077 15500251
Cronfa Gymunedol y Loteri: ymateb i Covid-19.	Ein blaenoriaeth yw cadw arian yn llifo i gefnogi cymunedau ledled Cymru. **Rydym yn agored i bob cais sy'n bodloni ein meini prawf, gan gynnwys cymorth yn ystod COVID-19**. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda CGGC ac arianwyr eraill i sicrhau ein bod yn ffurfio'r gefnogaeth orau i gymunedau Cymru. Rydym felly yn croesawu ceisiadau sy'n bodloni ein blaenoriaethau diwygiedig. • cefnogi sefydliadau i addasu neu arallgyfeirio i ymateb i heriau newydd ac yn y dyfodol • cefnogi cymunedau y mae COVID-19 yn effeithio'n andwyol arnynt • cefnogi cymunedau a sefydliadau i ddod yn fwy gwydn i'w helpu i ymateb yn well i argyfyngau yn y dyfodol.		£300-£10,000 o dan y rhaglen Arian i Bawb. £10,001 - £500,000 o dan y rhaglen Pawb a'i Le.	https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/wales	Cronfa Gymunedol y Loteri Cymru Ffôn: 029 2168 0214 - Darllen neges testun 18001 + 029 2168 0218 (ar gyfer pobl â nam ar y clyw neu eu lleferydd) E-bost wales@tnlcommunityfund.org.uk Cyfeiriad: 10fed Llawr, Helmont House, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2DY. Cyfeiriad: 2il Lawr, Ladywell House, y Drenewydd, Powys SY16 1JB

Cronfa gwydnwch trydydd sector Cymru – Cam 2 – Cymorth Newydd	Bydd y gronfa yn ehangu ystod y cymorth a fydd ar gael, gan sicrhau bod cyllid goroesi yn dal ar gael i'r sawl sydd ei angen. I helpu ag adferiad ac i helpu mudiadau i fod yn wirioneddol gydnerth ar gyfer y dyfodol rydym yn ychwanegu dau faes newydd. **Goroesi** Mae'r maes hwn wedi'i ddatblygu i helpu'r mudiadau gwirfoddol hynny sydd angen cymorth ariannol i oroesi'r argyfwng presennol, a hynny'n bennaf oherwydd y cwymp annisgwyl yn yr incwm a gânt drwy weithgarwch codi arian a rhoddion. **Gwella** Mae'r maes hwn wedi'i anelu at fudiadau sydd eisiau gwella sut maent yn ymgymryd â rhai o'u swyddogaethau presennol. Gallai enghreifftiau gynnwys: • Sefydlu neu ehangu modelau cyflawni amgen ar gyfer gwasanaethau presennol • Datblygu strategaeth codi arian gryfach gyda phersonél pwrpasol • Gwella presenoldeb ar-lein, gan gynnwys gwella'r gallu i werthu, cymryd archebion neu dderbyn rhoddion • Datblygu proses gref i gofnodi ac adrodd ar effaith **Amrywio** Wedi'i anelu at fudiadau sy'n ystyried buddsoddi mewn gweithgarwch newydd i gynhyrchu incwm i wasgaru'r risg a all ddeillio o unrhyw broblemau yn y dyfodol, er enghraifft, cyfnodau eraill o gyfyngiadau symud. Gallai enghreifftiau gynnwys: • Ehangu gwasanaethau i gynnwys ardal ddaearyddol newydd • Gweithgarwch newydd i gynhyrchu incwm • Ffurfio is-gwmni masnachu i ymestyn y ddarpariaeth		75% grant a 25% benthyciad di-log cychwynnol. Gall sefdliadau wneud cais am hyd at £100,000.	https://wcva.cymru/funding/social-investment-cymru/third-sector-resilience-fund-for-wales/	Cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i weinyddu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) E-bost: vsef@wcva.cymru Rhif ffôn: 0300 111 0124
Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol	Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun grant cyfalaf sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Gellir defnyddio'r grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac yn cael eu defnyddio'n helaeth ganddynt. Mae'r Rhaglen yn agored i fudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd, sicrhau ffyniant i bawb a datblygu cymunedau cadarn lle mae pobl yn cael eu cynnwys a'u grymuso. Mae disgwyl i bob ymgeisydd weithio gyda phartneriaid a all ddod o'r sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector.	Mewn ymateb i coronafeirws, bydd y grant o dan £25,000 yn awr yn caniatáu gwariant ar brynu neu amnewid offer. Gall hyn brynu offer TGCh, er enghraifft, i alluogi staff a gwirfoddolwyr i weithio o bell a pharhau i ddarparu gwasanaethau.	£25,000	https://llyw.cymru/rhaglen-cyfleusterau-cymunedol-canllawiau-i-sefydliadau-cymunedol-gwirfoddol?_ga=2.216512149.205628107.1589796089-1089861351.1573129038	Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, defnyddiwch flwch post y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn communityfacilitiesproghelp@gov.wales

CRONFA CYMRU ACTIF	Mae dau brif bwrpas i Gronfa Cymru Actif: • Diogelu clybiau a sefydliadau cymunedol sy'n wynebu risg ariannol ar unwaith ac sydd angen cefnogaeth. Bydd grantiau o £300 i £5,000 ar gael ar gyfer cefnogaeth argyfwng. • Darparu cefnogaeth ariannol i helpu i baratoi clybiau a sefydliadau i ailddechrau, ymateb i, neu ddatblygu cyfranogiad, fel ymateb uniongyrchol i Covid-19. Mae grantiau rhwng £300 a £50,000 ar gael i baratoi eich clwb neu eich sefydliad. Bydd rhaid i chi wneud cyfraniad o 15% ar gyfer grantiau dros £5,000, a all fod ar ffurf cyllid y clwb ei hun neu grantiau o ffynhonnell arall.	£300 - £5,000 Neu £300 – £50,000	https://www.chwaraeon.cymru/cronfacymruactif/	Chwaraeon Cymru E-bost: emergencyrelief@sport.wales
Rhaglen Grantiau Bach - The Leathersellers' Company Charitable Fund *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Proses ymgeisio gyflym ar gyfer grantiau unwaith yn unig yw hon. Gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ariannu prosiectau bach neu i dalu costau annisgwyl.	Yng ngoleuni'r heriau digynsail sydd erbyn hyn yn wynebu elusennau bach sy'n darparu gwasanaethau hollbwysig i aelodau mwyaf bregus ein cymuned, mae ein rhaglen grantiau bach yn gwahodd ceisiadau gan elusennau cofrestredig yn y DU sydd ar hyn o bryd yn: cefnogi'r digartref a'r rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn ddigartref; yn darparu bwyd a chyflenwadau hanfodol; cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref a gofal nyrsio ar gyfer cleifion bregus.	Hyd at £3000	https://leathersellers.co.uk/small-grants-programme/
Gwiriwr Cymhwysedd Grant y Gronfa Adferiad Diwylliannol **Mae ceisiadau am y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar gyfer busnesau a sefydliadau bellach ar gau. Chwiliwch ar wefan gymorth Covid-19 Busnes Cymru am gymorth arall.**	Diben y gronfa yw diogelu sefydliadau cynaliadwy a chymaint o swyddi â phosibl yn y sector diwylliant er mwyn sicrhau bod y sector yn goroesi argyfwng Covid-19 ac yn parhau i fod yn fywiog, hyfyw a chynaliadwy yn 2021 a thu hwnt. Er mai pecyn achub ac adfer yw hwn yn bennaf mae'n gyfle unigryw i weddnewid y sector. Mae'r sector yn cynnwys theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, atyniadau treftadaeth, sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, archifau, sinemâu annibynnol a digwyddiadau. Fodd bynnag, bydd cronfa ar gyfer y celfyddydau, yn cwmpasu theatrau ac orielau, yn cael ei rheoli ar wahân gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Ewch i **wefan Cyngor Celfyddydau Cymru** am ragor o fanylion.	Bydd grant o hyd at £150,000 (hyd at 100% o'r costau cymwys), na fydd gofyn ei ad-dalu, ar gael i bob sefydliad drwy ddwy broses wahanol: O dan £10,000: proses gyflym ar	https://llyw.cymru/ydych-chin-gymwys-i-gael-cymorth-or-gronfa-adferiad-diwylliannol?_ga=2.55972075.1352284102.1598959094-810185603.1596099685	Busnes Cymru 03000 6 03000

			gyfer sefydliadau llai a fydd yn seiliedig ar y costau cymwys Rhwng £10,000 i £150,000: proses fanylach a fydd yn seiliedig ar y costau cymwys.		
Grantiau Ymateb ac Ail-ddychmygu'r Gronfa Gelf *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r grantiau newydd hyn yn anelu at helpu amgueddfeydd, orielau a sefydliadau diwylliannol ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig ag argyfwng Covid-19 ar hyn o bryd, ac yn cynnig cymorth i addasu ac ail-ddychmygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol.	Rydym yn hapus i gael ceisiadau gan amgueddfeydd cyhoeddus, orielau, cartrefi hanesyddol, llyfrgelloedd ac archifau yn y DU sydd: • fel arfer â gofod i'r cyhoedd ymweld a phrofi'r celfyddydau gweledol neu gasgliadau eraill yn seiliedig ar wrthrychau. Gallai hyn gynnwys hanes naturiol, hanes morol a chludiant, archaeoleg a hanes cymdeithasol. • sy'n gallu dangos eich bod fel arfer yn gweithredu i safonau arferion gorau, neu â hanes da o ddarparu gweithgareddau cyhoeddus o ansawdd uchel. Os ydych yn sefydliad sy'n asiantaeth neu'n ŵyl celfyddydau gweledol, hoffem glywed gennych, ar yr amod eich bod yn bodloni'r uchod a gyda ffocws cryf ar gelfyddydau gweledol. Yn anffodus, ni allwn gefnogi'r theatr, cerddoriaeth, dawns neu ffurfiau celf eraill.	£10,000-£50,000	https://www.artfund.org/supporting-museums/programmes/respond-and-reimagine-grants	Art Fund E-bost:programmes@artfund.org
Umbrella Cymru – Cronfa LGBTQ + Covid-19 *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Cyn bo hir, bydd mudiadau a grwpiau LGBTQ + ledled y DU yn gallu gwneud cais am grantiau o hyd at £15,000 i gefnogi eu rôl hanfodol wrth gefnogi cymunedau LGBTQ + trwy'r pandemig coronafirws a thu hwnt. Bydd Elusen METRO mewn partneriaeth ag Umbrella Cymru yng Nghymru yn rhaeadru'r gronfa o Comic Relief, gydag arian yn cael ei godi o 'The Big Night In'.	Bydd mudiadau a grwpiau sydd ag incwm o dan £ 100,000 yn gallu gwneud cais am dros 100 o grantiau yn amrywio o £500 i £15,000.	https://www.umbrellacymru.co.uk/2020/07/13/covid-19-lgbtq-fund/		**Umbrella Cymru – Cronfa LGBTQ + Covid-19** **ceisiadau'n cau: 30 Medi 2020**
Cronfa Bontio RAFT The Fore *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Bwriad Cronfa Bontio RAFT The Fore yw cefnogi elusennau bach a mentrau cymdeithasol wrth iddyn nhw addasu i'r byd ar ôl y cyfnod clo. Bydd yr arian yn galluogi'r rhai sy'n derbyn y grant i gryfhau eu mudiadau, cynllunio ymlaen, bod yn fwy cynaliadwy ac ail ganolbwyntio eu sylw ar anghenion newydd eu buddiolwyr. Mae'r Fore yn edrych yn benodol ar ariannu sefydliadau bychain sy'n gweithio gyda grwpiau ar gyrion cymdeithas ac sy'n cael eu harwain gan bobl o fewn y gymuned sydd wedi ei gweld hi'n anodd cael mynediad at arian ymddiriedolaeth a sefydliad yn y gorffennol. Rydym ni am fod yn wahanol. Mae ein proses ariannu wedi ei chynllunio'n benodol er mwyn rhoi cyfle cyfartal a pheidio rhoi mantais annheg i'r rhai sydd â phrofiad neu gysylltiadau yn y maes codi arian.		£15,000	https://www.thefore.org/applying-for-funding/	The Fore E-bost: info@thefore.org

	Mae unrhyw elusen gofrestredig, Cwmni Buddiannau Cymunedol neu Gymdeithas er Budd Cymunedol sydd â throsiant llai na £500,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn gymwys i wneud cais.				
Sefydliad Banc Lloyds – Cronfa Adfer COVID *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Bydd hyn yn cynnig grant digyfyngiad dwy flynedd o £50,000 i tua 140 o elusennau ochr yn ochr â Phartner Datblygu i helpu elusennau i lywio dyfodol cythryblus. Mae'r gronfa hon yn agored i elusennau bach a chanolig eu maint gydag incwm rhwng £25,000 ac £1 miliwn y flwyddyn sy'n helpu pobl i oresgyn materion cymdeithasol cymhleth fel dibyniaeth, digartrefedd a cham-drin domestig.		Bydd hyn yn cynnig grant digyfyngiad dwy flynedd o £50,000 i tua 140 o elusennau ochr yn ochr â Phartner Datblygu i helpu elusennau i lywio dyfodol cythryblus**.**	https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/about-us/covid#Recover	**Sefydliad Banc Lloyds** Ffon: 0370 411 1223 E-bost: enquiries@lloydsbankfoundation.org.uk
Grant Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol Comic Relief *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Wrth i ni symud mewn i camau adferiad y pandemig #COFID19 mae angen parhaus am gefnogaeth wirfoddol a chymunedol ledled Sir Ddinbych i gefnogi gwytnwch ac gryfhau ysbryd cymunedol Mae ein Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol wedi'i alluogi gan Comic Relief o arian a godwyd o'r Big Night In. Mae gennym £26,591 i'w ddosbarthu i gefnogi gweithredu cymunedol gwirfoddol yn Sir Ddinbych!	Rhaid i'ch prosiect fodloni un neu fwy o'r meini prawf cyllido canlynol (Blaenoriaethau Grant): 1. Cynnal neu gynyddu gweithgareddau sy'n cefnogi'r bregus yn ystod y pandemig # COVID19 2. Sicrhau bod gan sefydliadau'r trydydd sector / gwirfoddol yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau e.e. treuliau gwirfoddolwyr 3. Annog protocolau iechyd a diogelwch llym ar gyfer gweithgareddau gwirfoddol i ddiogelu gwirfoddolwyr, buddiolwyr a staff y sector gwirfoddol e.e. glanweithdra dwylo	Hyd at £2000	https://www.123formbuilder.com/form-5543964/COMIC-RELIEF-VOLUNTARY-SERVICES-EMERGENCY-FUND-2020-GRANT-FORM	DVSC e-bost: sectorsupport@dvsc.co.uk neu ffôn 01824 702441
Cronfa Argyfwng Treftadaeth y Loteri Dyddiad cau ar gyfer *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Cronfa fyrdymor i gefnogi'r camau uniongyrchol angenrheidiol i sefydlogi gweithrediadau a rheoli risgiau anrhagweladwy. Gallwch wneud cais i ni am grantiau o rhwng £3,000 a £50,000 ar gyfer costau anochel na fyddech fel arall yn gallu eu talu am hyd at bedwar mis. Dim ond ar gyfer costau hanfodol y dylech wneud cais.	I wneud cais am gymorth i'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth rhaid i chi fod yn • sefydliad nid er elw • Derbynnydd cyfredol neu flaenorol grant uniongyrchol gennym ni • Perchennog, rheolwr neu gynrychiolydd gweithgaredd treftadaeth neu'n gallu dangos eich bod wedi darparu gweithgaredd treftadaeth gyfranogol Mae'n rhaid i chi gwrdd â'r meini prawf uchod i wneud cais am gyllid drwy'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth. Os nad ydych yn diwallu'r meini prawf hyn efallai y byddwch yn gymwys am gefnogaeth arall wrth i ni ddatblygu ein cymorth strategol hirdymor neu fentrau eraill.	£3,000 - £50,000 neu £50,000 - £250,000	https://www.heritagefund.org.uk/funding/heritage-emergency-fund	Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol enquire@heritagefund.org.uk Ffôn: 020 7591 6044 (dydd Llun - Gwener)
Rhaglen Grantiau Mawr Plant Mewn Angen *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Bwriad y grantiau hyn yw ariannu ymatebion cynaliadwy i'r sefyllfa COVID-19. Gall y prosiectau hyn bara am hyd at 18 mis. Bydd y gronfa'n helpu sefydliadau sydd angen gwneud addasiadau mwy cymhleth, yn cynnwys anghenion staffio ychwanegol. Mae wedi'i ddylunio i fod mor hyblyg â phosib ac i gynnwys amrediad eang o weithgareddau.	Mae'r rhaglen wedi'i dylunio ar gyfer sefydliadau sefydledig sydd eisoes yn gwneud gwaith yn eu cymunedau ac yn ehangach. Bydd y Rhaglen Grantiau Mawr ar gyfer mudiadau nid er elw yn y DU sy'n diwallu ein safonau gofynnol ar gyfer dyfarnu grant.	Hyd at £80,000	https://www.bbcchildreninneed.co.uk/grants/covid-19-funding-streams/	Plant Mewn Angen y BBC Cysylltwch â ni ar 0345 609 0015, neu anfonwch e-bost at ein tîm grantiau: pudseygrants@bbc.co.uk .

Grantiau Atgyfnerth Plant Mewn Angen *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Bydd Rhaglen Grantiau Atgyfnerthu 2020 yn dyfarnu grantiau bach o hyd at £5,000 i sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc y mae'r argyfwng COVID-19 wedi effeithio arnynt. Bwriad y grantiau hyn yw helpu sefydliadau i newid, i addasu ac i ehangu eu ffordd o weithio er mwyn gallu cefnogi'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio â nhw ar hyn o bryd yn y ffordd orau bosib.	Mae'r Rhaglen Grantiau Atgyfnerthu COVID-19 2020 yn gronfa **gwahoddiad yn unig**, ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu noddi ar hyn o bryd gan Blant Mewn Angen y BBC. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sydd â phrif grant, grant bach, grant chwilfrydedd neu grant pontio gyda ni. Bydd sefydliadau sydd wedi cael gwahoddiad i ymgeisio yn cael e-bost gennym gyda'r manylion.	Hyd at £5000	https://www.bbcchildreninneed.co.uk/grants/covid-19-funding-streams/	Bydd sefydliadau Plant Mewn Angen cymwys yn cael e-bost gan Blant Mewn Angen y BBC gyda chyfarwyddiadau ar sut i wneud cais drwy ein porth ar-lein. Os ydych yn ddeiliad grant ar hyn o bryd ond ddim yn derbyn yr e-bost hwn, cysylltwch â ni ar 0345 609 0015 neu drwy anfon e-bost at ein tîm grantiau yn pudseygrants@bbc.co.uk.
Cronfa Argyfwng Chwaraeon Cymru *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru wedi cyhoeddi eu bod am ddarparu £400,000 ar unwaith i gefnogi clybiau chwaraeon nid er elw. Bydd yr arian yn targedu clybiau sydd eisoes yn wynebu heriau arwyddocaol ar ôl yr wythnosau anodd diwethaf ac sy'n debygol o fod angen cymorth ariannol uniongyrchol dros y 12 wythnos nesaf os ydynt am barhau i fod yn rhan bwysig o'u cymuned yn y dyfodol.	Datblygwyd y gronfa i helpu sefydliadau chwaraeon cymunedol a gweithgaredd corfforol nad ydynt yn gallu diwallu eu rhwymedigaethau ariannol. Er enghraifft, ar gyfer costau sefydlog nad ydynt bellach yn cael eu cefnogi drwy refeniw oherwydd yr argyfwng coronafeirws. Gallai'r Gronfa Argyfwng helpu gyda gwariant ar: • Rent • Costau gwasanaethau • Yswiriant • Costau hurio cyfleusterau neu offer (os oes cost sefydlog) • Gweithgareddau neu gostau nad oes modd talu amdanynt drwy ffynonellau ariannu'r llywodraeth • Gallai clybiau a ddioddefodd yn sgil y llifogydd diweddar hefyd fod â chostau cyfalaf neu lanhau nad ydynt yn gallu talu amdanynt. Byddem yn disgwyl i ymgeiswyr fod wedi defnyddio pob ffynhonnell ariannol arall, yn arbennig ffynonellau ariannu argyfwng a chymorth sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru neu'r DU.	Bydd pob clwb cymwys yn gallu gwneud cais am rhwng £500 ac a £5,000.	https://www.sport.wales/media-centre/latest-news/2020-03-24-400000-emergency-fund-for-sport-announced-by-welsh-government-and-sport-wales/	Chwaraeon Cymru E-bost: emergencyrelief@sport.wales
Cronfeydd Brys COVID-19 Cadwyn Clwyd ar gyfer Sefydliadau Cymunedol *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae cymorth ar gael i alluogi sefydliadau cymunedol i ddatblygu a threialu ffyrdd newydd o ddarparu cymorth cymunedol rheng flaen yng nghyd-destun yr argyfwng Covid-19 presennol.	Ar gyfer sefydliadau 'rheng flaen' yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.	Hyd at £3000 ar gael ar gyfer gweithgareddau cymwys.	https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/hamdden/canolfan-fowlio-gogledd-cymru.aspx	Cadwyn Clwyd. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag: Adam Bishop 01490 340505 neu adam.bishop@cadwynclwyd.co.uk NEU Donna Hughes 01490 340500 neu Donna.hughes@cadwynclwyd.co.uk
Rhaglen Cymunedau Gyda'i Giydd y Lluoedd Arfog Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Bydd rhaglen Cymunedau gyda'i Gilydd y Lluoedd Arfog yn dyfarnu grantiau bach o hyd at £10,000 i brosiectau creadigol ac ymgysylltiol, y gellir eu darparu dan gyfyngiadau cymdeithasol, i bobl o gymunedau'r Lluoedd Arfog sy'n ynysu o ganlyniad i bandemig Covid-19.	Elusennau cofrestredig a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol, ysgolion, a safleoedd ac unedau'r Lluoedd Arfog.	Hyd at £10,000	https://covenantfund.org.uk/programme/forces-communities-together-programme/	Cronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog. Cyswllt: Stephen Townley, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog (AFLO) e-bost: Stephen.Townley@wrexham.gov.uk Ffôn: 01978 292267

Rhaglen Cymunedau Gyda'i Giydd y Lluoedd Arfog Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Fel rhan o becynnau tennis ar gyfer cefnogi'r LTA, byddwn yn darparu cyfleuster i Leoliadau sydd wedi cofrestru gyda'r LTA i wneud cais am gefnogaeth syml, anwarantedig rhwng £1,000 a £5,000, a fydd yn cael ei ad-dalu dros gyfnod o dair blynedd, yn dilyn gwyliau ad-dalu o tua blwyddyn, o'r pwynt pan mae'r gefnogaeth ariannol yn cael ei ddyrannu. Bwriad y gefnogaeth yw rhoi hwb ariannol pan maent yn wynebu problemau costau parhaus yn ystod y cyfnod hwn, ond gydag incwm llai, o ganlyniad i ostyngiad mewn adnewyddiadau aelodau, er enghraifft. Bydd y gefnogaeth hon ar gael yn rhwydd, heb log.	Dylid defnyddio'r gefnogaeth hon ar gyfer gwariant gweithredol nad ellir ei osgoi yn unig, nad oes modd i'ch lleoliad/sefydliad fforddio ar hyn o bryd. e.e. rhent, biliau cyfleustodau, premiymau yswiriant, ad-daliadau benthyciad, costau staff nu gynnal a chadw. Ni fwriedir i'r gefnogaeth ariannol fod ar gyfer prosiectau cyfalaf. e.e. ailwynebu cyrtiau, goleuadau, uwchraddio clybiau.	Benthyciadau hyd at £5000	https://www.lta.org.uk/about-us/covid-19-support-packages/venue-hardship-fund-support-scheme/	LTA Tennis For Britain
Cronfa Ymateb i Covid-19 Rosa (Grantiau Bach) *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae Cronfa Ymateb i Covid-19 Rosa (Grantiau Bach) nawr ar agor a bydd yn darparu grantiau o hyd at £10,000 ar gyfer sefydliadau merched arbenigol ar draws y DU. Pwrpas y gronfa ymateb cam cyntaf hwn yw darparu grantiau cyflym ac uniongyrchol gyda meini prawf cymhwyso sylfaenol iawn. Rydym o'r farn ei fod yn hollbwysig bod hwn yn alwad agored i sefydliadau merched wneud cais am beth maent yn eu nodi sy'n angen nawdd tymor byr.	Mae Rosa yn croesawu cynigion yn benodol gan sefydliadau merched sy'n: • Mynd i'r afael ag anghenion hanfodol merched sy'n colli allan fwyaf, gan gynnwys: poblogaethau ffiniol, Merched Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, merched LGBTQ+, merched gydag anableddau, goroeswyr camdriniaeth rhyw, merched yn y carchar a chyn-droseddwyr a grwpiau eraill o ferched anhaeddiannol neu dan anfantais. Gweithredu mewn trefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig llai cadarn yn economaidd o fewn y DU.	£1,000 - £10,000	http://rosauk.org/funds/rosas-covid-19-response-fund-small-grants/	ROSA Cyswllt: info@rosauk.org
COVID-19: Clothworkers' Emergency Capital Programme *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Bydd y gronfa hon yn rhoi grantiau cyfalaf bach o hyd at £5,000 ar gyfer eitemau cyfalaf hanfodol i addasu neu gynyddu gwasanaethau mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws. Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau bregus ac 'mewn perygl'.	Mae'n rhaid i chi ddangos eich statws nid er elw ar y ffurflen gais ac yn eich cyfrifon. Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n cefnogi grwpiau bregus ac 'mewn perygl' o fewn y meysydd rhaglen allweddol: • Camddefnyddio alcohol a sylweddau • Cymunedau lleiafrifol dan anfantais • Pobl ifanc dan anfantais • Cam-drin domestig a cham-drin rhywiol • Digartrefedd • Pobl hŷn • Pobl ag anableddau • Carcharorion a chyn-garcharorion • Pobl â Nam ar y golwg	Grantiau o hyd at £5000	https://www.clothworkersfoundation.org.uk/clothworkers-emergency-capital-programme/	
Cronfa Gymunedol Covid-19 Neighbourly *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Gyda chefnogaeth ein busnesau partner mae Neighbourly yn lansio cyfres o grantiau micro o hyd at £400 i gefnogi achosion da sy'n helpu cymunedau y mae Coronafeirws wedi effeithio arnynt.	Bydd grantiau'n cael eu dyfarnu i aelodau presennol Neighbourly yn y DU ac Iwerddon a fydd yn gwneud gwaith i gefnogi aelodau'r gymuned sy'n dioddef yn economaidd, yn gymdeithasol neu oherwydd gwaeledd o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19. Gall hyn gynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, bobl mewn oed, pobl ar incwm isel a phobl mewn perygl o fod mewn sefyllfa ansicr o ran eu gallu i gael bwyd.	Hyd at £400 ar gyfer aelodau Neighbourly UK yn unig.	https://www.neighbourly.com/NeighbourlyCommunityFund.	Neighbourly UK E-bost: hello@neighbourly.com Rhif y swyddfa: 0117 422 0866

Cyllid Argyfwng y Rhaglen 'Veterans Should Not be Forgotten'. *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Drwy'r rhaglen ***Veterans Should Not Be Forgotten*** byddwn yn galluogi sefydlu a chynnal canolfannau galw heibio a chlybiau brecwast lleol o fewn y rhwydwaith ASDIC; bydd canghennau Age Uk lleol sydd eisoes yn gweithio gyda chyn-aelodau'r lluoedd arfog ac elusennau bach o fewn aelodaeth Cobseo a oedd yn darparu cymorth uniongyrchol i gyn-filwyr yn eu cymunedau yn derbyn grantiau o hyd at £20,000 ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar gefnogi cyn aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi'u hynysu ac nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau neu sydd â chyswllt cyfyngedig yn ystod yr hunan ynysu a chyfyngiadau ar symud sy'n ofynnol yn ystod y pandemig.		Hyd at £20,000	https://www.covenantfund.org.uk/covid-19-response/	Cronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog. Cyswllt: Stephen Townley, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog (AFLO) e-bost: Stephen.Townley@wrexham.gov.uk Ffôn: 01978 292267
Grantiau Argyfwng Covid-19 Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Bydd ein cyfres nesaf o grantiau cymunedol yn cael eu dwyn ymlaen i 1 Ebrill er mwyn i unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau allu cael cyllid brys ar gyfer mentrau a fydd yn ysgogi gweithredu cymunedol ac yn helpu'r trigolion sydd wedi'u heffeithio fwyaf. Byddwch yn clywed oddi wrthym o fewn 14 diwrnod o gyflwyno eich cais. Gwnewch gais cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod eich menter neu eich prosiect yn cael cyllid!	Bydd meini prawf y grant yn cael eu llacio er mwyn ysbrydoli pobl a fydd yn gallu gwneud gwahaniaeth ledled Sir Ddinbych i weithredu. Bydd unigolion sy'n rhedeg busnesau bach yn gallu gwneud cais am gyllid ar gyfer gweithgareddau a fydd yn cefnogi eu cymunedau ochr yn ochr â gwirfoddolwyr, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, sefydliadau trydydd sector a mentrau cymdeithasol.	Hyd at £500	https://www.123formbuilder.com/form-5362362/COVID19CommunityGrants	DVSC e-bost: sectorsupport@dvsc.co.uk neu ffôn 01824 702441
Cronfa Gwydnwch Cymru ar gyfer y Celfyddydau Cronfa Sefydlogi ar gyfer Mudiadau *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r gronfa hon ar gyfer cefnogi mudiadau celfyddydol sy'n gweithio yn y sector nid er elw yng Nghymru ac yn profi anawsterau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i golled incwm yn ogystal â phroblemau llif arian yn deillio o'r pandemig Coronafeirws/COVID-19. Ein blaenoriaeth fydd y sefydliadau sy'n wynebu'r heriau ariannol mwyaf uniongyrchol a difrifol.	Bydd sefydliadau o fewn ac oddi allan i Bortffolio Celfyddydau Cymru yn gallu gwneud cais am gymorth. Fodd bynnag bydd cymorth ar gyfer aelodau Portffolio Celfyddydau Cymru yn gyfyngedig i'r rhai hynny sy'n diwallu meini prawf penodol a throthwyon ariannol	Grant o £35,000 i'w ddefnyddio o fewn 6 mis o'i dderbyn. **Dyddiad cau: 8 Mai.**	https://arts.wales/stabilisation-fund-for-organisations	Cyngor Celfyddydau Cymru coronavirus@arts.wales
Cronfa Cydlyniad Cymunedol Gogledd Cymru *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae Cronfa Cydlyniad Cymunedol Gogledd Cymru yn cynnig cyfle i sefydliadau wneud cais am gyllid o rhwng £500 a £1,000.00 i helpu grwpiau cymunedol sy'n rhoi cefnogaeth a chymorth i gymunedau ac unigolion y mae iaith, diwylliant neu anabledd yn creu rhwystrau iddynt o ran cael cefnogaeth a gwybodaeth yn sgil y mesurau pellhau cymdeithasol yn ystod yr argyfwng Covid-19 . Croesewir ceisiadau ar gyfer digwyddiadau/gweithgareddau neu lenyddiaeth gynorthwyol, offer amddiffynnol, meithrin capasiti ac ati yng nghymunedau Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych.	I fod yn gymwys i wneud cais mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn sefydliad gwirfoddol neu'n grŵp cymunedol sefydledig gyda chyfansoddiad, a chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn enw'r sefydliad neu sefydliad lletyol sy'n barod i dderbyn yr arian ar eu rhan *(ni fydd taliadau'n cael eu gwneud i unigolion).* Ni fydd ceisiadau gan unigolion yn cael eu derbyn. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddiwallu o leiaf un o'r amcanion canlynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag angen cymunedol yn deillio o fesurau pellhau cymunedol Covid 19 • Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb • Lleihau Tensiynau Cymunedol; • Cefnogi cymunedau amrywiol • Meithrin Capasiti Cymunedau	Rhwng £500 – £1,000	Gellir anfon unrhyw gwestiynau am y grant at y Tîm Cydlyniad Cymunedol: **emily.reddy@wrexham.gov.uk** neu ffonio 01978 292286	Caiff y gronfa hon ei gweinyddu gan Dîm Cydlyniad Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru. Gellir anfon unrhyw gwestiynau am y grant at y Tîm Cydlyniad Cymunedol: **emily.reddy@wrexham.gov.uk** neu ffonio 01978 292286

		• Cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi Cydlyniad Cymunedol • Cefnogi dinasyddion yr UE dwy'r cynllun EUSS • Hyrwyddo cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010; • Hyrwyddo Cydlyniad Cymunedol fel y'i hamlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru o Gymunedau Cydlynus - cymunedau deniadol, diogel wedi'u cysylltu'n dda); • Arall (rhowch eglurhad)			
Cronfa Argyfwng Coronafeirws Charities Aid Foundation (CAF) *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn mae CAF wedi lansio'r gronfa ymateb di-oed hon i helpu sefydliadau elusennol llai y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt. Gallwch wneud cais am gyllid digyfyngiad ar gyfer costau craidd, staffio, costau gwirfoddolwyr, cyflenwadau ac offer, cyfathrebiadau neu fyesydd elusennol hanfodol eraill.	Sefydliadau â dibenion a gweithgareddau elusennol gydag incwm o £1miliwn neu lai yn eu blwyddyn ariannol flaenorol,	Hyd at £10,000	https://www.parkinsons.org.uk/news/understanding-coronavirus-and-parkinsons	Charitable Aid Foundation. E-bost: CAFemergencyfund@cafonline.org
Rural Response Emergency Grants Programme *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r Prince's Countryside Fund yn gwahodd ceisiadau gan y grwpiau ffermio a chefnogaeth gymunedol wledig sy'n rhoi cymorth i geisio lleddfu effeithiau ynysu yn ystod y pandemig Coronafeirws. Gyda diolch i chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl gall grwpiau wneud cais am arian grant o hyd at £2,500 os ydynt yn: • rhoi cymorth brys i unigolyn bregus neu sydd wedi'u hynysu • Darparu cymorth i ffermwyr a busnesau fferm sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig Coronafeirws neu, • Yn helpu cymunedau gwledig neu ffermio i ymdopi â'r pandemig Coronafeirws	Mae cyfanswm o £100,000 ar gael yn y rownd cyntaf hwn o ariannu. Bydd y Gronfa yn cynorthwyo rhaglenni sy'n cefnogi busnesau fferm neu fusnesau gwledig eraill a chymunedau gwledig. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gostau gwirfoddolwyr a thanwydd ar gyfer danfon bwyd a presgripsiynau o siopau a chanolfannau cymunedol; costau cysylltiedig â chefnogaeth frys gan grwpiau cefnogi ffermydd ac amaethyddiaeth neu fanciau bwyd a gwasanaethau danfon bwyd gwledig.	Hyd at £2,500	https://www.princescountrysidefund.org.uk/grant-giving-programme/grant-programme	Prince's Countryside Fund. Ffôn: 020 7566 8797 E-bost: pcfapplication@bitc.org.uk
Cronfa Argyfwng Covid-19 Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg.	Bydd £500,000 o gymorth hanfodol ar gael i fudiadau sy'n helpu pobl â nam ar eu golwg sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i gynnal lles pobl ddall a rhannol ddal yn y cyfnod ansicr hwn.	Gellir defnyddio'r arian naill ai i dalu costau rhedeg cyffredinol yr elusen yn wyneb anawsterau llif arian sy'n cael eu hachosi'n uniongyrchol gan yr argyfwng, neu i ariannu prosiect a fydd yn cefnogi pobl ddall neu rannol ddall yn ystod y cyfnod anodd hwn.	Hyd at £10,000 o grant neu swm cyfwerth a dau fis o gostau rhedeg (pa un bynnag yw'r lleiaf) i'w	https://www.pocklington-trust.org.uk/covid-19-emergency-fund	Thomas Pocklington Trust. Email: grants@pocklington-trust.org.uk

NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD			ddefnyddio dros y 6 mis nesaf.		
Sylvia Adams Charitable Fund - Gwaith Ataliol y Blynyddoedd Cynnar *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio i wella cyfleoedd bywyd rhai o'r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru a Lloegr drwy fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol. Rydym yn cefnogi mudiadau sy'n gwneud gwaith gyda grwpiau targedig o blant 0-3 oed yng Nghymru a Lloegr.	Elusennau sydd wedi'u cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr â'u cyfrifon a archwiliwyd yn fwyaf diweddar yn dangos incwm o lai na £750,000 ac elusennau sy'n gallu dangos y tebygolrwydd o gynnydd mewn galw am eu gwasanaethau a/neu sy'n gallu dangos colled incwm rhagamcanol o ganlyniad i'r pandemig presennol.	Taliad unwaith yn unig o £5,000	http://sylvia-adams.org.uk/what-we-will-fund/	The Sylvia Adams Charitable Trust. E-bost: jane.Young@sylvia-adams.org.uk or telephone: 01707 259259
Cronfa Cerddoriaeth Llawr Gwlad *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r diwydiant cerddoriaeth fyw ar lawr gwlad yn un hanfodol bwysig i ddatblygiad cerddorion a chynulleidfaoedd ar draws y sir Gyda'r amgylchiadau presennol yn creu amgylchiadau hynod heriol i leoliadau, eu staff a'r diwydiant cerddoriaeth ehangach rydym wedi creu'r gronfa hon i geisio lleddfu'r baich ariannol ar draws y diwydiant i helpu lleoliadau, stiwdios, cerddorion llawrydd ac unrhyw un arall yn y diwydiant cerddoriaeth sydd wedi'u heffeithio oherwydd bod lleoliadau wedi gorfod cau eu drysau yn sgil y coronafeirws.	Ni allwn gefnogi ceisiadau gan fandiau unigol fodd bynnag gallwn o bosibl gefnogi pobl sy'n gweithio/yn rhan o'r diwydiant, sy'n cynnwys lleoliadau, stiwdios a hyrwyddwyr. Os nad ydych yn siŵr a fyddech yn gymwys ai peidio, cysylltwch â ni yn Cymrugreadigol@llyw.cymru <mailto:Cymrugreadigol@llyw.cymru> a byddwn yn trafod hyn gyda chi. Os nad ydych yn gymwys byddwn yn eich arwyddobostio at ffynonellau posibl eraill o gymorth.	Hyd at £25,000	Cymrugreadigol@llyw.cymru	Gellir gwneud ceisiadau Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at Cymrugreadigol@llyw.cymru
Datganiad Ariannu Comic Relief	Bydd yr arian a godwyd drwy The Big Night In yn cael ei rannu rhwng Comic Relief a Phlant Mewn Angen y BBC ac yn cael ei ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth o elusennau a phrosiectau yn y DU er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu cefnogaeth rheng flaen, hanfodol ar gyfer y bobl sydd ei angen yn yr argyfwng hwn. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod arian yn cyrraedd y cymunedau a'r prosiectau sydd wrth galon yr ymateb covid-19 mor gyflym ac effeithiol ag sydd bosibl. Rydym hefyd yn gwybod ei bod yn bwysig yn y sefyllfa hon i ddarparu cefnogaeth yn y tymor canolig a'r hirdymor. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ymdriniaeth ariannu fesul cam, gan weithio gyda phartneriaid i ddarparu rhwydwaith o ymateb argyfwng ar draws y sir, yn ogystal â chynnig cymorth i elusennau newydd sy'n ymateb i effeithiau tymor canolig a hirdymor yr argyfwng drwy alwad agored am arian yr haf hwn. Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid a noddir eisoes wrth iddynt ddatblygu eu hymateb Covid-19, rydym yn gweithio gyda rhai partneriaid cenedlaethol mwy sydd ag arbenigedd thematig ac yn gweithio ar y cyd er mwyn dosbarthu cyllid i gymunedau lleol a grwpiau llawr gwlad ar draws y DU sydd ym mhen blaen yr argyfwng hwn.		https://www.comicrelief.com/the-big-night-in-how-you-are-helping/	

Cyllid Brys ar gyfer Unigolion:

Cronfa elusennol lleddfu salwch a thlodi Annedd Wen ar gyfer trigolion Nantglyn.	Gyda'r sefyllfa bresennol gyda'r coronafeirws yn effeithio ar bob cymuned roeddem eisiau gwneud holl drigolion ein cymuned ni'n ymwybodol o'r gronfa galedi sydd gan Blwyf Nantglyn ar gyfer ei phreswylwyr neu bobl sy'n byw yn agos at ffin y plwyf. Yn anffodus oherwydd ei chyfansoddiad nid yw'r gronfa ar gael i drigolion o'r tu allan i'r plwyf.	Mae Cyngor Cymuned Nantglyn yn annog ceisiadau ar yr adeg hon. Nod y gronfa yw rhoi cymorth ariannol i drigolion pwyf Nanglyn ar adeg o salwch neu dlodi.	Bydd ceisiadau'n cael eu capio ar £250 i ddechrau ac yn gygfyngedig i ddim ond un cais fesul aelwyd er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn cael help.	http://www.community-council.org.uk/nantglyn/news.asp	Cysylltwch â chlerc Cyngor Cymuned Nantglyn Nia Thomason drwy e-bost yn gwbl gyfrinachol i gael rhagor o wybodaeth ac i ofyn am ffurflen gais. E-bost: cc.nantglyn@gmail.com
Cronfa Argyfwng Dyserth ar gyfer Trigolion Dyserth	Gall unrhyw un sydd mewn gwir angen ac argyfwng am ba bynnag reswm wneud cais yn gwbl gyfrinachol am dalebau gan y gronfa, a fydd yn cael eu rhoi yn ôl disgresiwn yn dibynnu ar yr achosion unigol, hyd at uchafswm o £50 i ddechrau. Gellir wedyn gwario'r talebau hyn yn siop Spar a siop Cigydd Dyserth. I gael rhagor o wybodaeth anfonwch e-bost.	Ar gyfer trigolion Dyserth yn unig.	Talebau gwerth uchafswm o £50 i'w gwario yn siop Spar a siop Cigydd Dyserth.		Cysylltwch â: dyserthemergencyfund@btinternet.com
Cronfa Eitemau Brys + Plant Mewn Angen	Mae'r rhaglen hon yn cefnogi plant a phobl unigol sy'n byw mewn tlodi difrifol heb y pethau sylfaenol y mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu cymryd yn ganiataol ac o dan bwysau ychwanegol oherwydd materion fel cam-drin domestig, anabledd neu waeledd yn y teulu. Mae'r rhaglen yn darparu eitemau sy'n diwallu anghenion mwyaf sylfaenol plant, pethau fel gwely i gysgu ynddo, popty er mwyn iddynt gael pryd poeth, dillad (mewn argyfwng) ac eitemau a gwasanaethau eraill sy'n hollbwysig i'w lles. Oherwydd yr argyfwng COVID-19 rydym wedi ehangu ein meini prawf ariannu ar gyfer y cynllun grant hwn er mwyn cynnwys amrediad ehangach o eitemau sylfaenol bwysig.	Caiff y Gronfa hon ei gweinyddu gan y Gronfa Teuluoedd ar hyn o bryd. Er mai grantiau ar gyfer teuluoedd yw'r rhain, mae'n rhaid i'r atgyfeiriadau ddod drwy asiantaeth atgyfeirio gofrestredig. Mae'n rhaid i geisiadau cael eu cwblhau gan atgyfeiriwr cofrestredig sy'n rhan o sefydliad sy'n cefnogi'r teulu neu'r unigolyn ifanc a fydd yn gallu asesu eu hanghenion. Dylai sefydliad yr atgyfeiriwr hefyd allu gweinyddu a goruchwylio'r grant ar ein rhan		https://www.familyfundservices.co.uk/emergency-essentials/	Plant Mewn Angen y BBC, wedi'i gweinyddu gan y Gronfa Teuluoedd. I gael rhagor o wybodaeth anfonwch e-bost at: emergencyessentials@familyfundservices.co.uk

Cavell Nurses Trust – Grant Cymorth Ariannol ar gyfer nyrsys a bydwragedd.	Rydym yn helpu nyrsys cofrestredig, bydwragedd a chynorthwywyr gofal iechyd - yn gweithio ac wedi ymddeol, pan fyddant yn profi caledi personol neu ariannol. Mae hyn yn aml yn digwydd oherwydd salwch, anabledd,heneiddio neu gamdriniaeth ddomestig.	I fod yn gymwys am grant gan yr ymddiriedolaeth mae'n rhaid i chi fod yn: nyrs gofrestredig neu fydwraig; nyrs neu fydwraig wedi ymddeol a oedd yn meddu ar PIN dilys ar adeg eu hymddeoliad/gadael y proffesiwn, cynorthwyydd gofal iechyd/nyrs gynorthwyol (neu wedi ymddeol) gyda 3 blynedd o brofiad o ddarparu gofal nyrsio mewn ysbyty neu gartref nyrsio dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig, yn byw yn y DU ar hyn o bryd ac wedi gweithio fel nyrs, bydwraig neu gynorthwyydd gofal iechyd yn y DU, yn profi caledi ariannol gyda llai na £4000 o gyfrifon cartref.	Dim uchafswm wedi'i ddatgan.	https://www.cavellnursestrust.org/news_and_events/extra-help-during-crisis/	Cavell Nurses Trust. E-bost: admin@cavellnursestrust.org
Grantiau argyfwng Covid-19 CaRe20 ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio ym meysydd manwerthu a chefnogi diwydiant.	Os ydych yn dioddef yn ariannol o ganlyniad i COVID-19 gallwch wneud cais am grant na fydd yn rhaid ei dalu'n ôl i'ch helpu chi yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r grantiau argyfwng hyn ar gael i'ch cefnogi chi yn y sefyllfaoedd canlynol: Rhent neu forgais heb ei dalu, perygl o ddigartrefedd, biliau blaenoriaeth fel nwy, trydan, ffôn, gwasanaethau neu dreth y cyngor (gyda threfniadau talu yn eu lle); treuliau angladd; methu darparu'r pethau sylfaenol angenrheidiol ar gyfer eu teulu, trwsio boeler, byw heb y pethau angenrheidiol, dim gorchudd llawr, dim cadeiriau; gwneud gwelliannau/addasiadau hanfodol i'r cartref, talebau bwyd, perygl o drais domestig, talu am deithio i weld plentyn neu ddibynnydd sy'n sâl yn yr ysbyty.	Mae'r grantiau ar gael i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y sector manwerthu neu'r diwydiannau cefnogi diwydiant. Logisteg, gweithgynhyrchu, warysau, cyfanwerthu, y gadwyn gyflenwi, dosbarthu bwyd, cyflenwadau fferyllol a meddygol. Bydd yr holl geisiadau'n cael eu hasesu ar sail achos wrth achos.	Dim uchafswm wedi'i ddatgan.	https://www.myrtwellbeing.org.uk/financial-support/grants-to-support-those-affected-by-covid-19	RetailTRUST. Llinell gymorth 080 801 0808 Top y Ffurflen
Cronfa Galedi i Ddawnswyr	**Pwy all wneud cais:** Dawnswyr proffesiynol. Rhoddir cymorth i ddawnswyr annibynnol ar draws holl ffurfiau gan gynnwys ballet, cyfoes, dawns Du ac Asiaidd a hip hop, gan gynnwys rhai â gyrfaoedd portffolio, e.e. coreograffi, lle mae eu gwaith fel arfer yn cynnwys cyflogaeth yn y sector ddawns â chymhorthdal. Cefnogir y Gronfa hon gan Gyngor Celfyddydau Lloegr.	Oherwydd y galw, ni allwch wneud mwy nac un cais am y gronfa dros dro hon. Dylech ond wneud cais os ydych yn dioddef caledi ariannol mawr, er mwyn i ni allu blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Ni allwn ateb ymholiadau unigol dros y ffôn am y gronfa hon.		https://www.dancefund.org.uk/grants/crisis/	Rhif ffôn y Gronfa Dawnswyr Proffesiynol: 01273 234011
Cronfa Argyfwng Awduron	Arian brys ar gyfer awduron sydd wedi'u heffeithio gan yr argyfwng Covid-19. Mae'r Gymdeithas Trwyddedu a Chasglu Awduron (ALCS), y Gronfa Lenyddol Frenhinol (RLF), Sefydliad T S Eliot mewn partneriaeth ag English PEN ac Amazon UK yn hael iawn wedi cyfrannu adnoddau ariannol i greu'r Gronfa Argyfwng ar Gyfer Awduron i helpu i gefnogi	Mae ceisiadau ar agor i bob awdur proffesiynol sy'n byw yn y DU neu sy'n ddinesydd y DU - yn cynnwys ysgrifenwyr o bob math, darlunwyr, cyfieithwyr llenyddol, ysgrifenwyr sgriptiau, beirdd, newyddiadurwyr ac eraill y mae gweithgareddau cysylltiedig ag ysgrifennu yn cyfrif am ran sylweddol o'u hincwm ariannol.	Mae'r grantiau'n debygol o fod hyd at £2,000 ac wedi'u dylunio i ddiwallu angen brys gyda'r posibilrwydd o adolygu hyn wrth i'r sefyllfa barhau.	https://www.societyofauthors.org/Grants/contingency-funds	The Society of Authors. Ffôn: 020 7373 6642 E-bost: grants@societyof authors.org

	Awduron sydd wedi'u heffeithio gan yr argyfwng iechyd cynyddol.				
Cefnogaeth ar gyfer Gweithwyr Theatr Proffesiynol yn ystod y Coronafeirws	Cefnogaeth a chymorth ar gyfer unrhyw un yn y diwydiant theatr. Yng ngoleuni cau llawer o theatrau yn y DU oherwydd Covid-19, mae elusennau theatrau arweiniol wedi dod at ei gilydd i ganoli gwybodaeth am sut ac ymhle y gallwch gael gafael ar gefnogaeth os ydych yn gweithio yn y diwydiant theatrau. Mae gwybodaeth ar gael am gymorth ariannol, iechyd meddwl a mwy – yn cynnwys siart llif defnyddiol i'ch helpu chi i benderfynu pa elusen fyddai yn y sefyllfa orau i'ch helpu chi,			https://theatresupport.info/	Llinell gymorth 0800 915 4617 E-bost – advice@theatrehelpline.org
Railway Benefits Funt - Grantiau Cymorth Ariannol	Mae'r gronfa'n cynnig dwy brif fath o raglen grant i gefnogi gweithwyr rheilffordd a'u teuluoedd yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. • Rhaglen prif grantiau - os ydych ar hyn o bryd yn profi anawsterau ariannol bydd ein grantiau'n eich galluogi i fyw eich bywyd bob dydd arferol. • Y Gronfa Cefnogi Teuluoedd – rhaglen o grantiau bach sy'n cefnogi staff rheilffyrdd sydd â phlant, ac incwm aelwyd gros o ddim mwy na £30,000.	Rhaid bod yn weithiwr rheilffordd, yn cynnwys gweithio yn y gadwyn gyflenwi. Mae rhagor o feini prawf cynhwysedd i'w gweld ar-lein.	Prif grant caledi ariannol – dim uchafswm wedi'i bennu. Cronfa cymorth teuluoedd – hyd at £200	https://www.railwaybenefitfund.org.uk/how-we-can-help/grants-programme/ https://www.railwaybenefitfund.org.uk/how-we-can-help/family-support-fund/	Railway Benefit Fund Ffôn: 0345 241 2885 E-bost: support@railwaybenefitfund.org.uk Llinell ffôn ar agor o 10am tan 3pm dydd Llun i ddydd Gwener ac mae'n e-bost yn cael ei fonitro rhwng 9am a 4pm yn ystod yr wythnos waith.
Turn2us	Mae Turn2u yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl ar adegau o argyfwng gan roi cymorth ariannol a chymorth i'w helpu i ddod drwy'r argyfwng Mae gan y wefan hefyd declyn chwilio am grantiau a chyfrifydd budd-dal.	Mae Turn2us yn cefnogi pobl mewn angen ariannol drwy Gronfa Turn2us Elizabeth Finn, Cronfa Ymateb Turn2us ac Ymddiriedolaeth Caeredin Turn2us.		https://www.turn2us.org.uk/Get-Support/Turn2us-Funds	Ffurlfen gyswllt ar-lein ar gael.
Grant Argyfwng COVID-19 Hospitality Action	Ar gyfer gweithwyr yn y sector lletygarwch, sydd wedi gweithio yn y diwydiant lletygarwch yn y DU dros y mis diwethaf.	Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod wedi gweithio yn y diwydiant lletygarwch yn y DU o fewn y mis diwethaf. Bydd yn angenrheidiol i ymgeiswyr ddarparu mis o gyfriflen banc a thystiolaeth gan eu cyflogwr bod eu swydd wedi dod i ben neu fod yr oriau wedi lleihau.	*Mae ceisiadau wedi cau dros dro oherwydd galw uchel.* Gall unigolion wneud cais am grant unwaith yn unig o £250.	https://www.hospitalityaction.org.uk/get-help/	Hospitality Action Email: help@hospitalityaction.org.uk

Cronfa Covid-19 'Do it Differently'. **Helpu Cerddorion**	Mae rownd Covid-19 o'r gronfa Do It Differently yn cynnig pecyn ariannol wedi'i deilwra'n arbennig a chyngor arbenigol wedi'i ddylunio i'ch helpu chi i addasu a chynnal eich cerddoriaeth drwy'r cyfnod hwn. Yn cynnig grant o £3,000 bydd cerddorion yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i ffordd drwy'r ansicrwydd presennol sydd wedi'i achosi gan yr argyfwng Coronafeirws ac i ddarganfod ffyrdd newydd o fod yn greadigol ac yn gynhyrchiol yn ystod y cyfnod hwn o hunanynysu.	Ceisiadau drwy **ffurflen ar-lein <https://www.cognitoforms.com/HelpMusicians1/Covid19DoItDifferentlyFund>.** Gofynnir i chi ddarparu bywgraffiad yn amlinellu eich cyraeddiadau artistig ac uchafbwyntiau eich gyrfa hyd yma gyda manylion y prosiect neu'r gweithgaredd penodol yr ydych yn gwneud cais am arian ar ei gyfer a chrynodeb o sut y bydd y gweithgaredd hwn o fudd i'ch cynnydd a'ch gyrfa fel crëwr cerddoriaeth annibynnol. Dylech hefyd allu dangos tystiolaeth o'r elfennau o'ch gyrfa hyd yma lle'r ydych wedi arddangos hunangynhaliaeth a sut y bydd yr annibyniaeth greadigol hon yn rhan o'r prosiect yr ydych yn bwriadu ymgymryd ag o.	Ochr yn ochr â'r £3,000 o arian prosiect, bydd artistiaid a gynhelir hefyd yn cael diwrnod (6 awr) o sesiynau cyngor busnes gydag amrywiaeth o arbenigwyr a fydd wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion unigol nhw.	https://www.helpmusicians.org.uk/creative-programme/current-opportunities/do-it-differently-fund-covid-19-round	Help Musicians E-bost: help@helpmusicians.org.uk Ffôn: 0207 239 9101
Cronfa Argyfwng Coronafeirws y National Benevolent Charity *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r Gronfa Argyfwng yn daliad brys ar gyfer pobl â dibynyddion sy'n profi caledi oherwydd eu bod ar gontract 0 oriau ac wedi colli eu swyddi neu wedi gweld eu hincwm yn gostwng yn sylweddol o ganlyniad uniongyrchol i'r Coronafeirws.	Mae'n rhaid i chi fod yn byw yn y DU, gyda dibynyddion, yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt a bod y weithiwr contract 0 oriau gyda llai o incwm neu ddim incwm o ganlyniad i'r coronafeirws. Gofynnir i chi ddarparu eich cyfriflen banc ddiweddaraf i ddangos tystiolaeth o'ch enillion a'ch cyflogaeth flaenorol. Dim ond un cais fesul aelwyd. Bydd unrhyw ddyfarniad yn cael ei wneud ar ffurf trosglwyddiad banc.	Hyd at £300 fesul aelwyd	https://natben.org.uk/emergency-coronavirus-fund	The National Benevolent Charity. E-bost: office@natben.org.uk
Cyngor Celfyddydau Cymru - Cronfa ymsefydlogi i unigolion *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Sylwch os gwelwch yn dda bod ein cronfa ymateb brys ar gyfer unigolion wedi cau ar 6 Mai, 2020. Mae'r Gronfa ymsefydlogi i unigolion wedi'i hanelu at unigolion sy'n edrych ar ffyrdd o ddatblygu eu gwaith neu newid y ffordd y maent yn gweithio, ac sydd angen cefnogaeth i'w helpu i wneud hyn.	Nod y gronfa yw cefnogi artistiaid llawrydd ac ymarferwyr creadigol llawrydd sy'n gweithio yn y sector dielw yng Nghymru sy'n ceisio goroesi'r bygythiad i'w bywoliaeth oherwydd coronafeirws. Bwriad yr arian yw eu helpu i feithrin cadernid a chynnal ymarfer creadigol.	Mae grantiau rhwng £1,000 a £10,000 ar gael.	https://arts.wales/cy/cronfa-ymsefydlogi-i-unigolion	Cyngor Celfyddydau Cymru Cysylltwch â ni trwy e-bostio grantiau@celf.cymru i gael gwybodaeth bellach.
Cronfa Gwydnwch Cymru ar gyfer y Celfyddydau Cronfa Ymateb Brys ar gyfer Unigolion *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r gronfa Ymateb Brys hon ar gyfer ymarferwyr creadigol llawrydd sy'n profi caledi/colled incwm ar hyn o bryd oherwydd y pandemig COVID-19. Cyllid byrdymor mewn argyfwng i alluogi unigolion i oroesi'n ariannol ac yn artistig.	Bwriad y gronfa yw helpu unigolion i ddiwallu eu hanghenion ariannol mwyaf uniongyrchol wrth iddynt archwilio unrhyw gyfleoedd posibl am gymorth drwy gynlluniau'r Llywodraeth neu ffyrdd eraill o gynnal eu gweithgaredd. Mae'r gronfa hon yn cynnwys cymorth ariannol gan Cyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Tŷ Cerdd a Llenyddiaeth Cymru. Dim ond os nad oes gennych unrhyw ffynhonnell arall o incwm y dylech wneud cais i'r gronfa hon.	Hyd at £2,500	https://arts.wales/stabilisation-fund-for-organisations	Cyngor Celfyddydau Cymru E-bost: coronavirus@arts.wales

Cronfa Caledi Coronafeirws Help Musicians *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae Help Musicians wedi sefydlu cronfa i leddfu rhywfaint ar y pwysau ariannol uniongyrchol y gallai llawer o gerddorion proffesiynol fod yn eu hwynebu. Rydym wedi creu cronfa o £5m i helpu i leihau'r pryder y mae llawer o gerddorion yn ei brofi ynglyn a'u costau byw cynyddol.	Byddwch yn gerddor proffesiynol (sy'n golygu perfformiwr, cyfansoddwr/crewr neu'n rywun sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu cerddoriaeth, neu mewn gwaith lle mai'r cymhwyster pennaf yw lefel uchel o hyfforddiant cerddorol). Rydych yn hunangyflogedig neu'n ddi-waith ar hyn o bryd ac angen cymorth ariannol. Rydych yn bodloni ein gofynion preswylio. Nid ydych mewn addysg bellach nac addysg uwch ar hyn o bryd. Rydych wedi ymddeol ac roedd eich prif yrfa mewn cerddoriaeth.	Taliad unwaith yn unig o £500 fesul ymgeisydd	https://www.helpmusicians.org.uk/news/latest-news/advice-relating-to-coronavirus-covid-19	Help Musicians Ebost: help@helpmusicians.org.uk Ffôn: 0207 239 9101
Cronfa Argyfwng Ffilm a Theledu COVID-19. *NODER: MAE'R GRONFA HON AR GAU O HYN O BRYD*	Mae'r Gronfa Argyfwng Ffilm a Theledu COVID-19 yn gronfa unigryw dros dro a grëwyd gan yr Elusen Ffilm a Theledu mewn partneriaeth â BFI. Bydd y gronfa yn darparu cymorth ariannol unwaith yn unig ar gyfer gweithwyr ffilm a theledu sy'n wynebu caledi ariannol arwyddocaol uniongyrchol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.	Rydym eisiau canolbwyntio ar helpu gweithwyr llawrydd y DU a gweithwyr eraill ar gontract na fyddant yn manteisio'n sylweddol ar Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth na'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth ac nad ydynt yn derbyn unrhyw gyllid o ffynonellau eraill.	O £500 hyd at £2,500	https://filmtvcharity.org.uk/covid-19-help-advice/covid-19-relief-fund/	Elusen Ffilm a Theledu Am gyngor am y gronfa ffoniwch: 0800 054 00 00 a phwyswch opsiwn 1 neu anfonwch e-bost at: covid19relief@filmtvcharity.org.uk